Cyn i mi ddechrau gweithio â'r prosiect, fel llawer o'n myfyrwyr, roeddwn i'n teimlo bod y gyfraith yn fyd cymharol gaeedig. Fodd bynnag, dros y ddwy flynedd diwethaf rwyf wedi gweld cymaint o siaradwyr yn rhoi eu hamser i rannu eu hangerdd dros fynediad at y gyfraith fel fy mod yn hynod o falch bod yn rhan o ddiwylliant a chymuned gyfreithiol mor gadarnhaol. Wrth symud ymlaen rydym angen isadeiledd cryfach i ganiatáu mynediad at fyd y gyfraith i fwy o bobl ifanc yn yr un ffordd â'n myfyrwyr ni.

Dros y flwyddyn olaf mae ein pobl ifanc, o gefndiroedd diwylliannol amrywiol ac o rannau gwahanol o Lundain, wedi gweithio â'i gilydd i greu tîm. Fel cymuned rydym wedi dysgu am gydraddoldeb a hawliau yn Ne Affrica ac yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Rwy'n gobeithio y byddwn i gyd yn teimlo cyfrifoldeb y wybodaeth a rannwyd â ni, ac y byddwn yn barod i'w ysgwyddo er mwyn gwneud y byd yn well."

Jennifer Blair

Cydlynnydd, Big Voice London

Cyflwyniad

Big Voice London

Lansiwyd Big Voice London ym mis Ionawr 2011. Cysylltodd Jennifer Blair, myfyrwraig bargyfreithiol, yn wreiddiol â'r Goruchaf Lys ynglŷn â'u rhaglen allgysylltu â phobl ifanc, a datblygodd y prosiect gyda'u cyngor a'u cefnogaeth. Recriwtiodd Jennifer dîm o wirfoddolwyr ymrwymedig, aeth at ysgolion y wladwriaeth yn Llundain, gan dargedu'r rhai mewn ardaloedd â'r nifer uchaf o dlodi plant, i gasglu at ei gilydd grŵp o 40 o fyfyrwyr chweched dosbarth gyda diddordeb yn y gyfraith.

Caiff Big Voice London ei arwain gan wirfoddolwyr sydd ar y cyfan yn fyfyrwyr cyfraith ôl-raddedig sydd ag ymrwymiad i roi mynediad i ieuencid. Mae Big Voice yn unigryw yn y ffordd y mae'n mynd i'r afael yn benodol ag ymrwymo pobl ifanc â'r gyfundrefn gyfreithiol. Mae'r prosiect yn ymdrechu i rymuso myfyrwyr o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd ddifreintiedig drwy eu cysylltu â llunwyr polisi cyfreithiol, fel bod ganddynt lais yn ein cymdeithas.

Big Voice yn 2012

Rydym wedi gweld datblygiadau bendigedig i'r prosiect yn 2012, gan gynnwys creu cystadleuaeth ymryson hawliau dynol 'Just Rights', ble cafodd ein pobl ifanc eu paru â myfyrwyr y gyfraith i gystadlu â'i gilydd fel prif gwmsler a chwmsler iau. Caniataodd hyn i bobl ifanc oedd â dim cefndir cyfreithiol i dderbyn mentora wrth iddynt ddysgu sut i wneud dadl gyfreithiol ar lefel uchel. Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad yr Arglwydd Reed a'r Goruchaf Lys am gynnal y rownd derfynol ac yn gyffrous eu bod wedi cytuno i wneud hynny eto yn 2013.

Y flwyddyn hon rydym wedi adeiladu ar ein hastudiaeth gymharol yn 2011 â De Affrica ol-apartheid, drwy ymchwilio i'r datblygiadau cyfreithiol arloesol sy'n cael eu gwneud yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Cawsom yr anrhydedd i gymryd rhan mewn teithiau addysgol i Fangor, Belfast a Chaeredin sydd wedi rhoi syniadau gwych i ni ar gyfer ein gwaith i'r dyfodol.

Ein Myfyrwyr

Mae'r myfyrwyr yn gwneud cais i ymuno â'r prosiect ac mae cymryd rhan yn Big Voice London yn golygu ymrwymiad sylweddol o ran mynychu sesiynau wythnosol yn ystod y tymor rhwng Ionawr a Rhagfyr 2012, yn ogystal â chymryd rhan mewn teithiau ymchwil dros nos, i gyd yng nghyd-destun pwysau gwaith eu hastudiaethau yn y chweched dosbarth.

Mae cefnogaeth a chydweithrediad yr ysgolion a cholegau sy'n gweithio â ni yn hanfodol i'r prosiect, gan ei fod yn caniatáu i fyfyrwyr gael cefnogaeth a chydabyddiaeth i'w gwaith. Y flwyddyn hon mynychodd rhan helaeth o'n myfyrwyr City and Islington Sixth Form College, Hackney Community College, Mulberry School for Girls, Nower Hill high School, St Angela's & St Bonaventure's Sixth Form Centre a St Dominic's Sixth Form College.

Tri Chwyddwydr ar y Gyfundrefn Gyfreithiol

Calon ein gwaith yw canolbwyntio ar gydraddoldeb a mynediad at gyfiawnder. Mae ein myfyrwyr yn archwilio'r testunau hyn o wahanol safbwyntiau ym mhob un o'r tri grŵp.

Amrywiaeth a'r Gyfraith: archwiliwyd y rhwystrau sy'n effeithio ar fynediad at y proffesiynau cyfreithiol yn ogystal â rôl diwylliant mewn amddiffyniadau cyfreithiol. Heriwyd cysyniadau gwahaniaethu ac archwiliwyd materion megis braint, grymusrwydd a gweithredu cadarnhaol.

Asiantaeth Gyfreithiol: canolbwyntiwyd ar fynediad at y gyfraith yn dilyn diwygiadau Woolf, hawliau dynol a'r gyfundrefn gyfiawnder troseddol, gydag astudiaeth benodol ar rymoedd yr heddlu, gwrthdystiadau, atebolrwydd a'r defnydd o ataliaeth mewn dalfeydd.

Treftadaeth Gyfreithiol: edrychwyd ar effaith celf, pensaernïaeth a llenyddiaeth ar hunaniaeth gyfreithiol, archwiliwyd treftadaeth gyfreithiol amrywiol y myfyrwyr eu hunain ac effaith hawliau ieithyddol a datganoli ar hunaniaeth gyfreithiol yng Nghymru.

Yr Awduron

Y bobl ifanc gymrodd rhan yn y prosiect a gyfrannodd tuag at y papur hwn oedd:

Amrywiaeth a'r Gyfraith

Ciara Walsh
Jessica Bhardwaj
Joshua Aberdein
Joshua Garfield
Kadija Ledeatte-Williams
Nazia Sultana
Roumina Begum
Rukshana Begum
Shahida Begum
Sonia Tailor
Tasneem Helal
Yavin Fusi-Akpodono

Y gwirfoddolwyr oedd yn ymdrin â hwyluso, cydlynu a chyfrannu at y papur hwn oedd:

Alex Cisneros, Ben Mills, Jennifer Blair, Maleeka Bokhari a Ruth Hennessy.



Cydnabyddiaethau

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr ewyllys da a'r cymorth yr ydym wedi ei dderbyn yn ystod ein prosiect ac yn arbennig i Ysgol y Gyfraith Prifysgol Bangor am eu cymorth â'r cyfieithu i'r Gymraeg.

Gwirfoddolwyr yw'r rhai sydd wedi rhoi eu hamser i wireddu'r prosiect. Cafwyd hyfforddiant hwyluso arbenigol gan EquaEd. Y tîm cydlynau oedd Alex Cisneros, Ariana Gale, Jennifer Blair a Maleeka Bokhari. Ein harweinwyr tîm oedd: Adam Muckle, Ben Mills, Dimitra Kamarinou, Esmá Komur, Frances Bennett, Lucy Rezler-Kennedy, Michelle Murray, Ruth Hennessy, Sarah Hirech, Sasha Wickham, Sophie Charles, Wendy Bremang, Zahra Afshar. Hoffem hefyd ddiolch i'n gwirfoddolwr cyfreithiol Nargees Choudhury a'n gwirfoddolwr digwyddiadau cyfreithiol Rob Patmore.

Mae Siaradwyr wedi cynnig golwg arbenigol i'r myfyrwyr am eu gwaith a'u profiad proffesiynol. Diolch i: Saba Ashraf, Imran Khan, Bernard Hogan-Howe Comisiynydd yr Heddlu Metropolitan, yr Arglwydd Reed o'r Goruchaf Lys, Adam Wagner, Tom Cleaver, Jonathan Rubin, Gwion Lewis, Cherie Blair CF, Ustus Roderick Evans o'r Uchel Lys, Anne Fenton o'r Sefydliad Astudiaethau Cyfreithiol Proffesiynol yng Ngogledd Iwerddon, yr Athro Colin Harvey o Brifysgol Queen's Belfast, y Prif Uwch-arolygydd Mark Hamilton a Maura Muldoon o Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon, Comisiwn y Gyfraith, Emily Thornberry AS, y Farwnes Helena Kennedy CF a'r Arglwydd Kerr o'r Goruchaf Lys.

Mae llawer mwy sydd wedi cyfrannu at gyflawni'r prosiect. Hoffem ddiolch yn arbennig i: EquaEd, Sarwan Singh a City University, BPP Law School, City and Islington Sixth Form College, Hackney Community College, Mulberry School for Girls, Nower Hill high School, St Angela's & St Bonaventure's Sixth Form Centre, St Dominic's Sixth Form College, Islington Council, Kensington Unitarian Church, Gray's Inn, Paul McEvoy o Gyfreithwyr McEvoy Sheridan Solicitors, ein prif noddwr Lexis Nexis a'r Goruchaf Lys.

Cyflwyniad

Mae'r ystrydeb o'r cyfreithiwr gwryw, gwyn, dosbarth uchel yn parhau ac wrth ymdrin â'r pwnc hwn rydym wedi darganfod amryw o rwystrau i'r proffesiynau cyfreithiol i'r rhai o gefndiroedd llai 'traddodiadol'. Ar gyfer y papur hwn byddwn yn amlinellu trywydd i mewn i'r gyfraith, fel ein bod yn gallu: 1) adnabod unrhyw rwystrau i hygyrchedd; 2) gweld sut all unigolyn wynebu amryw o rwystrau; a 3) pennu beth ellir ei wneud ar bob cyfnod i wneud y proffesiynau cyfreithiol yn fwy agored ac addas ar gyfer cefndiroedd gwahanol.

I gloi, byddwn yn dadansoddi'r berthynas ddwysach rhwng diwylliant a'r gyfraith. Mae'r papur briffio yn ganlyniad i waith ymchwil ar sefyllfa bresennol amrywiaeth cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, taith addysgiadol i Ogledd Iwerddon ac astudiaeth gymharol o amrywiaeth yng nghyfundrefn gyfreithiol De Affrica.

Crynodeb

Fel y trafodir isod, ein prif argymhellion yw:

- Dylai ystadegau monitro amrywiaeth nodi os yw ymgeisydd wedi cael addysg y wladwriaeth (ac os ydynt pa un ai ydynt wedi mynychu ysgol ramadeg neu gyfun).
- Dylai cynigion disgybledd/contract hyfforddi gael eu cadarnhau cyn i fyfyrwyr ymgymryd â Chwrs Hyfforddi Proffesiynol y Bar (CHPB) neu'r Cwrs Ymarfer Cyfreithiol (CYC), dylai rheoleiddwyr cyfreithiol geisio cadw ffioedd ôl-raddedig i lawr heb amharu ar gyfraith cystadleuaeth a dylai ysgoloriaethau'r CHPB gael eu rheoli'n ganolog.
- Dylai bod mwy o bwyslais ar brofiad ymarferol mewn hyfforddiant cyfreithiol ôl-raddedig a llwybrau amgen i'r gyfraith megis prentisiaethau, gan osgoi nepotiaeth.
- Dylid cyfuno'r CHPB a'r CYC i un cwrs neu dylid bod ffordd rwydd i droi o un i'r llall; dylai hefyd fod yn bosib i fargyfreithwyr sydd wedi eu hyfforddi yng Ngogledd Iwerddon ymarfer yng Nghymru a Lloegr.
- Dylai Cymdeithas y Gyfraith a Chyngor y Bar gynhyrchu pecyn cymorth a strategaethau gweithredu i roi cymorth i ffyrmiâu bychan a setiau fabwysiadu arferion gorau ar gyfer recriwtio.
- Pan mae ffyrmydd yn gwrthod ymgeisydd wedi cyfweiliad dylent ddarparu adborth defnyddiol ar gais fel ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Dylai darn safonol o waith (e.e. opiniwn) gael ei osod gan Fwrdd Safonau'r Bar ar gyfer OLPAS yn flynyddol a'i gylchredeg gyda cheisiadau disgybledd.
- Dylai gwell mynediad i ofal plant, oriau gwaith/gweithio o gartref mwy hyblyg a chynlluniau absenoldeb mamolaeth fwy deniadol fod yn flaenoriaethau.
- Dylai cynlluniau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) mis o hyd wedi eu hachredu gael eu cynnal er mwyn hyrwyddo ceisiadau barnwrol.
- Os nad yw gweithred gadarnhaol 'canlyniad cyfartal' yn effeithiol yna byddwn yn hoffi gweld cwota yn cael ei osod ar gyfer apwyntiadau barnwrol am gyfnod cychwynol o ddwy flynedd. Dylai'r diffiniad o 'deilyngdod' gael ei archwilio er mwyn sicrhau ei fod yn gosod gwerth digonol ar brofiad a sgil ac nad yw'n dangos tuedd o blaid un math o gyfreithiwr (er enghraifft o blaid bargyfreithwyr masnachol).
- Dylai'r Comisiwn Apwyntiadau Barnwrol ehangu ei gylch gwaith i dargedu pobl ieuengach a chyfreithyddion ifancach, yn arbennig cyfreithwyr, fel bod mwy o bobl yn ystyried apwyntiad barnwrol fel rhan o'u llwybr gyrfaol.

Cyfreithwyr o Gefndiroedd sy'n cael eu Tangynrychioli

Yn y papur hwn byddwn yn canolbwyntio ar fynediad i'r gyfraith ar gyfer merched a phobl o gefndiroedd croenddu a lleiafrifoedd ethnig. Rydym yn archwilio amrywiaeth yng nghyd-destun statws gymdeithasol-economaid, oherwydd ein bod yn gweld hyn fel y brif nodwedd sy'n dal pobl yn ôl rhag gyrfaoedd yn y gyfraith. Nid yw'n ymddangos bod monitro digonol o hyn ac felly byddwn yn galw'n gryf ar yr ystadegau monitro amrywiaeth i adlewyrchu un ai addysg wladwriaeth gyfun, ramadeg neu addysg ysgol breifat.

Fodd bynnag, mae'n bwysig i'n proffesiynau cyfreithiol gynnwys grwpiau sydd wedi wynebu gwahaniaethu hanesyddol ac yn arbennig y rhai sydd â nodwedd wedi ei ddiogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.¹ Yn arbennig rydym yn cefnogi'r model cymdeithasol o anabled: gan gredu, mewn nifer o sefyllfaoedd, mai cymdeithas a'n methiant i greu systemau hygyrch sy'n achosi anabled pobl.² Hoffem ddathlu'r arferion gorau cyfredol mewn recriwtio cyfreithiol, megis cynlluniau sy'n gwarantu cyfweliad ar gyfer ymgeiswyr ag anabledau.³

Addysg Gyfreithiol

Mae aelodau ein grŵp i gyd wedi mynychu ysgolion a chweched dosbarth y wladwriaeth yn Llundain, a hyd yn oed ar y cyfnod yma, rydym yn teimlo bod gan fyfyrwyr sydd ag addysg breifat fantais wrth ymgeisio i brifysgolion. Mae dosbarthiadau llai yn golygu mwy o gefnogaeth un-i-un ar gyfer datganiadau personol ar gyfer prifysgolion a gwell cyfleoedd i athrawon ddod i adnabod eu myfyrwyr, a all gael effaith ar dystlythyrau. Gall myfyrwyr sydd ag addysg breifat fod â mwy o arian i wario ar gyfer ychwanegu diddordebau a llwyddiannau allgyrsiol er mwyn creu argraff yn eu CV ac mae hyfforddiant yn cynyddu hyder a hunanymwybyddiaeth ar gyfer cyfweliadau.

Mae'r rhwystrau hyn, er enghraifft, yn golygu bod canran llai o fyfyrwyr o gefndir y wladwriaeth yn ymgeisio ar gyfer ac yn cael eu derbyn i'r prifysgolion mawreddog, megis Oxbridge,⁴ er nad yw cefndir ysgol y wladwriaeth yn anfantais ar gyfer y dosbarth gradd derfynol ar haenau uchaf y byd academaidd.⁵ Mae effaith dosbarth cymdeithasol yn parhau yn y brifysgol, gan na fydd gan fyfyrwyr sydd angen gweithio i gefnogi eu hastudiaethau'r un amser i ymroddi i'w gwaith academaidd o gymharu â'u cyfoedion sy'n well eu byd. Mae graddfa'r myfyrwyr sy'n rhoi'r gorau i brifysgol yn uwch mewn prifysgolion llai mawreddog,⁶ ac mae ffioedd myfyrwyr cynyddol yn rhoi pwysau ar fyfyrwyr o gefndiroedd cymdeithasol-economaid is i roi'r gorau iddi.⁷

Yn ein barn ni, y prif rwystr i'r gyfraith, ar gyfer y rhai o gefndiroedd tlotach a'r rhai o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a all fod yn ofni gwahaniaethu, yw'r gost waharddol sydd ynghlwm â dilyn hyfforddiant proffesiynol. Mae cost y CYC yn amrywio rhwng £10,000 a £15,000.⁸ Ar gyfer y CHPB, mae'r swm yma'n codi ychydig gyda cwrs safonol un flwyddyn, llawn amser yn costio rhwng £12,000 a £18,000.⁹

1 Mae'r nodweddion sydd wedi eu diogelu o dan y Ddeddf Gydraddoldeb 2010 wedi eu nodi ar:
<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/part/2/chapter/1>.

2 The Social Model of Disability (2009) Grant Carson, SAIF; ar gael ar-lein ar:
<http://www.ukdpc.net/site/images/library/Social%20Model%20of%20Disability2.pdf>.

3 Fel sy'n cael ei ymgymryd gan Wasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth, er enghraifft:
<http://www.cabinetoffice.gov.uk/content/guaranteed-interview-scheme>.

4 Er enghraifft, er mai 7% yn unig o'r boblogaeth sy'n cael addysg breifat, yn 2001 roedd 35.7% o geisiadau i Rydychen o ysgolion preifat ac roedd 42.3% o'r nifer a dderbynwyd o ysgolion preifat. Gwybodaeth ar gael ar:
http://www.ox.ac.uk/about_the_university/facts_and_figures/undergraduate_admissions_statistics/school_type.html.

5 Academic Performance of Undergraduate Students at Cambridge by School/College Background (2011) Dr Geoff Parks, Prifysgol Caergrawnt, ar gael ar-lein ar: http://www.admin.cam.ac.uk/offices/admissions/research/docs/school_performance.pdf.

6 Am ddadansoddiad manwl gweler: <https://spreadsheets.google.com/pub?key=rjOIMfz31BnVzx0HcijtiBg&single=true&gid=0&output=html>, ble mae gan Oxbridge mae'r raddfa isaf o'r rhai sy'n rhoi'r gorau iddi.

7 E.e. <http://www.telegraph.co.uk/education/educationnews/9173784/University-drop-out-rate-soars-by-13pc-in-a-year.html>.

8 Gellir darganfod ffioedd y prif ddarparwyr yma: The College of Law <http://www.college-of-law.co.uk/prospective-students/lpc-course-fees.html>; BPP University College <http://www.bpp.com/professional-qualifications-course-details/d/professional-qualifications/LPC/4826?p#dates>; Kaplan Law School <http://law-school.kaplan.co.uk/apply/tuition-fees>.

9 For BPP, see <http://www.bpp.com/professional-qualifications-course-details/d/professional-qualifications/BPTC/5461?p#dates>; for City Law School, see <http://www.city.ac.uk/courses/postgraduate/bar-professional-training-course>.

Gall y costau hyn ymddangos fel mentro lwc, heb unrhyw sicrwydd o waith ar y diwedd. Ar gyfer egin gyfreithwyr, mae'r cyfle i sicrhau contract hyfforddi cyn ymgeisio am y CYC yn rhoi diogelwch a chymorth gyda phris y ffioedd a chynhaliath ar gyfer y CYC. Tra ei bod hefyd yn bosib sicrhau disgybledd cyn dechrau'r CHPB, mae cyfweiliadau'n aml yn cynnwys ymarferiadau sydd wedi eu seilio ar sgiliau moesol, gweithdrefnol ac eiriolaeth sydd ond yn cael eu dysgu ar y CHPB.¹⁰

Dull arall fyddai mabwysiadu'r system yng Ngogledd Iwerddon, sydd â chanolbwynt bragmataidd wrth dderbyn myfyrwyr ar gyfer cyrsiau ôl-radd sydd yn debygol o allu darganfod swyddi fel bargyfreithwyr neu gyfreithwyr yn dilyn eu cwrs. Yn Hydref 2012 aethom i ymweld â'r Sefydliad Astudiaethau Cyfreithiol Proffesiynol ym Melffast a chlywed sut mae pwyslais arbennig yn cael ei roi ar brofiad o'r byd go iawn yng nghyfundrefn Gogledd Iwerddon.

30 o fyfyrwyr yn unig sy'n astudio cwrs y Bar pob blwyddyn ac mae'n rhaid iddynt ymgymryd â chynllun profiad gwaith mewn cangen Cyngor ar Bopeth ac wythnos o ddisgybledd, sydd wedi ei ddylunio er mwyn arwain at gynnig disgybledd lawn, cyn dechrau'r cwrs. Mae cyfreithwyr yn ymgymryd ag astudiaeth ôl-raddedig fel rhan o brentisiaeth gyfreithiol, felly mae angen iddynt ddod o hyd i fentor cyn iddynt ddechrau'r cwrs. Mae'r broses yma'n gwneud astudiaeth ôl-raddedig ddud yn llai o risg ariannol, ond bod angen ei reoli er mwyn osgoi nepotiaeth: er enghraifft ychydig o ffyrniau cyfreithwyr sy'n hysbysebu 'contractau hyfforddi' ac mae llawer yn parhau i ddibynnu ar gysylltiadau teuluol.¹¹

Un her a godwyd yn ystod ein hymweliad â Gogledd Iwerddon oedd bod nifer o gyfreithwyr o Gogledd Iwerddon yn hyfforddi ac ymarfer yn Lloegr, oherwydd fel arall byddent ond yn gallu ymarfer yng Ngogledd Iwerddon. Rydym yn credu y dylai modiwl dewisol ychwanegol gael ei ddatblygu er mwyn caniatáu i fyfyrwyr Gogledd Iwerddon addasu eu cymwysterau cyfreithiol i rychwantu Cymru a Lloegr.

Unwaith y mae prawf teilyngdod sylfaenol wedi ei basio, dylai ysgoloriaethau ar gyfer y CHPB eu gwobrwyo yn seiliedig ar angenrheidrwydd ariannol. Yn ôl ein dealltwriaeth ni mae pedwar Llety'r Brawdlys yn defnyddio meini prawf gwahanol ar gyfer gwobrwyo ysgoloriaethau a byddai'n llawer tecach pe byddai'r gwobrau hyn yn cael eu gwneud drwy raglen unedig, gan ddefnyddio meini prawf sy'n adlewyrchu'r arferion gorau cyfredol.¹²

Mynediad i'r Proffesiynau

Am y rhesymau a nodwyd yn gynharach yn y papur hwn, fe all fod y rhai o gefndiroedd breintiedig fod gam ar y blaen, felly mae angen camau ychwanegol i roi cyfle i ymgeiswyr o grwpiau llai breintiedig i ragori.

Mae'n rhaid i ddisgybleddau gael eu hysbysebu yn ganolog drwy system ar-lein OLPAS, ond gallent dal gael eu prosesau ymgeisio unigol eu hunain.¹³ Nid oes porth canolog ar gyfer ceisiadau i ffyrniau cyfreithwyr ac unwaith eto gall ffyrniau sefydlu eu gofynion ar gyfer ceisiadau eu hunain. Ar gyfer rhai setiau a ffyrniau nid yw hyn yn ddim mwy nag CV a llythyr eglurhaol. Mae hyn yn creu'r risg o edrych heibio rhai ymgeiswyr, sydd wedi mynychu prifysgol llai adnabyddus neu sydd â sgiliau llai traddodiadol, ond a allai dal fod â gallu gwych fel cyfreithwyr.

Yn 2010/11 43% yn unig o ddisgybleddau a gymerwyd gan ferched,¹⁴ er bod dros 60% o israddedigion cyfraith yn ferched¹⁵ a bod 53% o'r graddedigion CHPB a gafodd eu galw i'r Bar yn 2009/10 yn ferched.¹⁶ Tra ar lefel

10 Fel y profwyd gan wirfoddolwyr Big Voice London ac amlinellir ar wefan Pupillage Pages: http://thepupillagepages.com/index.php?id=x&cat_id=14#2.

11 Information Booklet for Applicants (2012) Queen's University Belfast Institute of Professional Legal Studies, University of Ulster; ar gael ar-lein ar: <http://www.qub.ac.uk/schools/media/Media,339557,en.pdf>.

12 Mae'r system gyfredol yn cael ei amlinellu ar wefan Target Courses: <http://targetcourses.co.uk/funding/securing-a-scholarship-fund-your-bptc-inns-of-court>.

13 Fel sy'n ofynnol gan Gyngor y Bar: <http://www.barcouncil.org.uk/for-the-bar/new-to-the-bar/pupillage/>.

14 <http://www.barstandardsboard.org.uk/media-centre/research-and-statistics/statistics/pupillage-statistics/>.

15 <http://www.lawsociety.org.uk/careers/becoming-a-solicitor/entry-trends/>.

16 t.8 http://www.legalservicesboard.org.uk/what_we_do/consultations/closed/pdf/annex_b.pdf.

mynediad mae merched yn derbyn dros 60% o'r swyddi dan hyfforddiant mewn ffyrniau cyfreithwyr,¹⁷ mae mwy angen ei wneud yn y Bar, ble mae'r gwelliant ond yn 2.2% pob blwyddyn.¹⁸ Yn 2010/11 cafodd 14% o ddisgybleddau eu cymryd gan ymgeiswyr o gefndiroedd croenddu a lleiafrifoedd ethnig,¹⁹ er bod 16% o boblogaeth Cymru a Lloegr yn dod o gymunedau croenddu a lleiafrifoedd ethnig²⁰ a bod bron i 45% o'r rhai a alwyd i'r Bar yn 2009/10 yn dod o gefndiroedd croenddu a lleiafrifoedd ethnig.²¹

Rydym yn cynnig y dylai 'banc-gwaith' gael ei gynnwys yn y broses OLPAS, ble gall Bwrdd Safonau'r Bar osod darn o waith, megis opiniwn cyfreithiol, fel bod modd beirniadu ymgeiswyr yn unol â'u sgiliau.²² Yn ogystal, rydym yn awgrymu bod y llywodraeth yn ystyried rhoi buddiannau treth i ffyrniau sy'n ymgymryd â gweithredu cadarnhaol o dan y Ddeddf Gydraddoldeb 2010.²³ Gallai hyn ddefnyddio dulliau tebyg i'r mudiad Awdurdodi Grym Economaidd Croenddu yn Ne Affrica.²⁴ Rydym yn awgrymu y dylai Cyngor y Bar a Chymdeithas y Gyfraith gyhoeddi canllawiau parhaus a phe cynnau cymorth i ategu'r cod ymarfer sy'n ymdrin ag amrywiaeth a recriwtio cyfreithiol.

Mae Cymdeithas y Gyfraith, Lletyau'r Brawdlys a phrifysgolion yn cynnal digwyddiadau allgysylltu i fyfyrwyr o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli, ond hoffem weld y rhain yn mynd ymhellach drwy gynnwys cyfleoedd ar gyfer asesu ymarferion sydd wedi eu seilio ar sgiliau dros gyfnod hirach er mwyn rhoi cyflawniad ar y diwedd i'r rhai sy'n cymryd rhan. Credwn hefyd y gellir gwella hygyrdded sesiynau galw-mewn drwy gynnwys pobl ddylanwadol fel ysbrydoliaeth.

Yn ogystal, byddem yn annog pob ffyrm a siambr i gynnwys ymrwymiad fel rhan o'u polisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth i ddarparu adborth defnyddiol ar gais i ymgeiswyr aflwyddiannus, yn arbennig y rhai sydd wedi cyrraedd y cyfnod cyfweld. Byddai hyn yn cynyddu atebolrwydd ac felly yn atal gwahaniaethu, yn ogystal â rhoi cyngor defnyddiol i ymgeiswyr wrth fynd yn eu blaen. Rydym hefyd yn cefnogi mentrau diweddar i hybu hyfforddiant proffesiynol wrth weithio, er enghraifft megis paragyfreithwyr neu brentisiaeth. Rydym yn gobeithio y bydd yr Adolygiad Addysg a Hyfforddiant Cyfreithiol yn argymhell syniadau arloesol a chwyldroadol yn y maes hwn.²⁵

Un broblem gyfredol yw anhawster trosi CHPB i CYC. Mae llawer mwy o gyfreithwyr na bargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr (120,202 o gymharu â 15,204 yn 2012)²⁶ ac felly mae'n ymddangos yn hynod o ryfedd bod yr 85% o ymgeiswyr disgybledd aflwyddiannus llynedd²⁷ heb y dewis i drosi yn sydyn ac yn rhad i'r CYC. Mae'n hynod annhebygol y byddai'r rhai o gefndir llai breintiedig yn gallu fforddio ymgymryd â CYC ac felly rydym yn berygl o golli eu talent ac ymrwymiad yn y gyfundrefn gyfreithiol. Byddem yn hoffi gweld bargyfreithwyr a chyfreithwyr yn sefyll yr un cwrs craidd neu yn gallu trosi drwy sefyll arholiad syml ychwanegol.

17 <http://www.lawsociety.org.uk/careers/becoming-a-solicitor/entry-trends/>.

18 t.15 http://www.legalservicesboard.org.uk/what_we_do/consultations/closed/pdf/annex_b.pdf.

19 <http://www.barstandardsboard.org.uk/media-centre/research-and-statistics/statistics/pupillage-statistics/>.

20 <http://www.guardian.co.uk/news/datablog/2011/may/18/ethnic-population-england-wales>.

21 <http://www.barstandardsboard.org.uk/media-centre/research-and-statistics/statistics/called-to-the-bar-statistics/>, er bod hyn yn cynnwys canran sylweddol o fyfyrwyr rhyngwladol.

22 Yn debyg i'r dull gwaith asesedig sy'n cael ei ddefnyddio gan Brick Court a Blackstone Chambers, yn dilyn cyfarfod bargyfreithwyr ohonynt eleni.

23 Mae amryw o ffyrniau uchel yn ymwneud yn barod â gwaith rhagorol megis menter PRIME; c.f. The Prime Diversity Initiative (2011) Richard Moorhead, Legal Cheek; ar gael ar-lein ar: <http://www.legalweek.com/legal-week/blog-post/2112836/prime-diversity-initiative-game-changer-window-dressing> a Vacation Schemes (2012) Catherine Baksi, Guardian Law; ar gael ar-lein ar: <http://www.guardian.co.uk/law/2012/nov/02/vacation-schemes-applications-law-firms>.

24 For more information see the useful BEE Strategy from the Department of Health in Kwazulu-natal: <http://www.kznhealth.gov.za/TED/strategy.pdf>.

25 C.f. <http://www.iilex-tutorial.ac.uk/>. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r Adolygiad Addysg a Hyfforddiant Gyfreithiol gweler: <http://letr.org.uk/>.

26 http://www.legalservicesboard.org.uk/can_we_help/faqs/index.htm.

27 <http://www.barstandardsboard.org.uk/media-centre/research-and-statistics/statistics/pupillage-statistics/>.

Y Nenfwd Gwydr

11% o Gwnsleriaid y Frenhines²⁸ a llai na 20% o bartneriaid mewn ffyrniau cyfreithiol sy'n ferched.²⁹ Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf mae'r canran o Gwnsleriaid y Frenhines wedi codi 3% yn unig. Nid yw hyn yn achos o aros i ferched fynd i mewn i'r proffesiwn a chodi'n raddol i safleoedd uwch - a adnabyddir fel yr effaith diferu-fyny - oherwydd roedd hynny'n ddadl a ddefnyddiwyd cenhedlaeth yn ôl. Mae graddfa'r newid yn boenus o araf ac, fel nodir gan y gymdeithas Fawcett ynglŷn â merched â grym, bydd merch sy'n cael ei geni heddiw ar ei phensiwn cyn y bydd cynrychiolaeth gydradd i ferched.³⁰

Ar lefel yr UE mae trafodaethau diweddar wedi bod ynglŷn â gorfodi cwotâu ar gwmnïau preifat.³¹ Un o brif anfanteision rhoi cwota mewn lle yw bod ymdeimlad cryf ymysg merched y byddai hyn yn creu tocynistiaeth, a fyddai'n tragwyddoli'r ystrydeb bod merched yn israddol. Mae ymchwil diweddar gan y Comisiwn Apwyntiadau Barnwrol yn dangos bod dynion gwyn yn credu eu bod yn llai tebygol o gael eu hapwyntio yn sgil gwahaniaethu cadarnhaol, ond nid yw merched yn teimlo'r un fath.³² Mae hyn yn awgrymu efallai nad yw'r argraff o docynistiaeth yn cael ei deimlo gan ferched, ond yn fwy tebygol o gael ei deimlo gan ddynion.

Dylid bod mwy o hygyrchedd tuag at adnoddau gwarchod plant un ai'n cael eu darparu gan y gweithle ei hun (neu letyau'r Brawdlys ar gyfer bargyfreithwyr) neu gerllaw. Dylid bod ffioedd gofal plant llai, a bod cefnogaeth i hyn yn cael ei gynnal a'i gynyddu gan y llywodraeth. Dylai mwy o ffyrniau gynnig y dewis o oriau gweithio hyblyg a gweithio o gartref i weithwyr â phlant. Mae hyn yn gyraeddadwy iawn wrth ystyried y dechnoleg bresennol sy'n gallu rhoi mynediad tra datblygedig o bell. Yn ogystal, dylai ffyrniau flaenoriaethu cynlluniau absenoldeb mamolaeth ddeniadol.³³ Er y gall hynny fod yn ddrud yn y tymor byr, mae astudiaethau wedi dangos yn gyson bod buddsoddi yn y gweithwyr drwy weithredu mesurau cydraddoldeb yn fuddiol yn yr hir dymor, o ran ysbryd da ac yn ariannol.³⁴

Mae angen bod rhesymau arbennig o dda dros gyflwyno cwotâu ac rydym yn cydnabod yn llawn y gwrthdaro angerddol yn wleidyddol a chymdeithasol a arweiniodd at gwotâu yng Ngogledd Iwerddon a De Affrica.³⁵ Fodd bynnag, ar hyn o bryd rydym yn credu y byddai manteision cwotâu mewn ffyrniau cyfreithwyr yn cael eu gorbwyso gan bryderon eraill. Yn hytrach byddem yn argymhell ffurfiau eraill o weithredu cadarnhaol, megis allgysylltu a thargedu dyrchafiadau, a gwell tryloywder i rwystro gwahaniaethu ar sail rhyw, er enghraifft tryloywder mewn perthynas â chyflog, fel y cafodd ei gynnig i ddechrau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Ar y llaw arall, mae'r ystadegau ar gyfer Cwnsleriaid y Frenhines sy'n ferched yn ofnadwy ac yn arbennig o sarhaus gan fod 'Cwnsler y Frenhines' i fod yn gydnabyddiaeth gyhoeddus o deilyngdod. Rydym o'r farn y dylid gwneud llawer mwy i wella'r tryloywder, cyhoedduswydd a gwybodaeth sydd ar gael ynglŷn â'r broses apwyntio ac i hybu ceisiadau gan grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Efallai bod angen hefyd ail-ystyried y diffiniad presennol o 'deilyngdod' er mwyn cydnabod sgiliau a thalent ehangach.

28 t.15 http://www.legalservicesboard.org.uk/what_we_do/consultations/closed/pdf/annex_b.pdf.

29 http://womeninlaw.com/WIL/?page_id=16.

30 <http://www.fawcettsociety.org.uk/index.asp?PageID=5>.

31 <http://www.bbc.co.uk/news/business-20039540>.

32 t.4 http://jac.judiciary.gov.uk/static/documents/Barriers_to_Application_Research_report_1.pdf.

33 Rhestr o bolisiau absenoldeb mamolaeth y 15 ffyrn uchaf: http://www.legalweek.com/digital_assets/5700/Maternity_Table_3.pdf.

34 The Costs and Benefits to British Employers of Measures to Promote Equality of Opportunity (2007) Holtermann, Gender, Work and Organisation, 2: 102–112. doi: 10.1111/j.1468-0432.1995.tb00033.x.

35 Cafodd ffurf benodol y cwotâu hyn eu sefydlu gan Adroddiad Patten, ar gael yma: http://www.nio.gov.uk/a_new_beginning_in_policing_in_northern_ireland.pdf.

Apwyntiadau Barnwrol

Ar hyn o bryd 22.6% yn unig o'r farnwriaeth sy'n ferched, gyda dim ond 15.5% o farnwyr yr Uchel Lys, a dim ond un ferch yn y Goruchaf Lys; mae 4.2% o farnwyr o gymunedau croenddu neu leiafrif ethnig; roedd 62.3% o farnwyr yn fargyfreithwyr ac felly mae cyfreithwyr yn parhau i gael eu tangynrychioli yn y farnwriaeth.³⁶

Y flwyddyn yma cawsom y cyfle i gyfarfod Mr Ustus Roderick Evans o'r Uchel Lys, barnwr gwryw gwyn y gofynasom iddo ynglŷn â lladd er anrhydedd. Gwnaeth gryn argraff arnom gyda'i ddealltwriaeth ddwys a'i drugaredd tuag at y maes a byddem yn pwysleisio ei bod yn bwysicach i 'farnwriaeth sy'n gweddnewid' gynnwys unigolion sy'n deall materion amrywiaeth, nac i'r farnwriaeth fod yn union gynrychioladol o ran nifer.

Rydym yn bryderus ynglŷn â'r cynnig i ddewis ymgeisydd o grŵp sy'n cael ei dangynrychioli mewn sefyllfa gyfartal rhwng ymgeiswyr, oherwydd ni all hyn fyth gael ei weithredu gan na fydd dau ymgeisydd fyth yn union yr un fath. Os nad yw'r trywydd hwn yn llwyddiannus yna rydym yn teimlo y gellir cyfiawnhau cwotâu am gyfnod prawf o ddwy flynedd, er mwyn chwistrellu cydraddoldeb pellach i'r gyfundrefn gyfiawnder.

Mae apwyntiadau barnwrol yn apwyntiadau i swydd gyhoeddus ac felly mae ganddynt ofyniad pellach o gyfreithlondeb a chynrychiolaeth ddemocrataidd y bobl. Dylai ymgeiswyr ar gyfer apwyntiadau barnwrol gyrraedd trothwy safonau cymhwysedd sylfaenol er mwyn gallu gwneud y swydd yn ddigonol, felly dylai argraff o docynistiaeth fod yn llai niweidiol.

Yn ogystal, rydym yn teimlo y dylai bod mwy o gynlluniau allgysylltu ac ehangu cyfranogi yn eu lle er mwyn hysbysu pobl ifanc a chyfreithwyr ifanc ynglŷn â rôl barnwr a'r broses ymgeisio, gan fod y Comisiwn Apwyntiadau Barnwrol wedi darganfod bod pobl ond yn ymgeisio os ydynt yn gweld ymuno â'r farnwriaeth fel rhan o'u 'llwybr gyrfaol'.³⁷

Cymhariaeth â Gogledd Iwerddon a De Affrica



Ymwelsom â Gogledd Iwerddon yn Hydref 2012 a chyfarfod â'r Prif Uwch-arolygydd Mark Hamilton a Maura Muldoon, Pennaeth Plismona gyda'r Gangen Gymunedol, o wasanaeth heddlu Gogledd Iwerddon i drafod degawd o weithredu cadarnhaol a chwotâu yng Nghogledd Iwerddon i sicrhau cynrychiolaeth gydradd rhwng swyddogion Catholig a Phrotestant.³⁸

Rydym hefyd wedi archwilio i gwotâu ar gyfer barnwyr croenddu a benywaidd yn farnwriaeth De Affrica, yn dilyn diwedd apartheid.³⁹ Gwnaed argraff hynod arnom fod y cwotâu yn y ddwy achos wedi

bod mor llwyddiannus ac rydym o'r farn bod hyn yn rhannol oherwydd y gweithredu cadarnhaol cysylltiedig, sy'n sicrhau bod y person sy'n cael ei apwyntio yn effeithiol yn ei swydd.

Nid ydym yn credu y gellir cyflwyno modelau De Affrica a phlismona yng Nghogledd Iwerddon yn uniongyrchol i Gymru a Lloegr, ond byddem yn argymhell yn bendant bod y Comisiwn Apwyntiadau Barnwrol yn mynd ymhellach yn ei strategaeth allgysylltu er mwyn cynnig cyfleoedd mwy sylweddol, er enghraifft gall pobl ysgrifennu dyfarniad asessedig ar achos go iawn.

36 http://www.judiciary.gov.uk/publications-and-reports/statistics/diversity-stats-and-gen-overview/?wbc_purpose=basic.rss.

37 t.5 http://jac.judiciary.gov.uk/static/documents/Barriers_to_Application_Research_report_1.pdf.

38 Am fwy o fanylion gweler erthygl Joshua Garfield ar-lein ar: <http://bigvoicelondon.org/2012/11/16/big-voice-visits-the-uk/>.

39 t.12 <http://bigvoicelondon.files.wordpress.com/2011/12/big-voice-report.pdf>.

Casgliad

Tra ei bod yn bosib i berson talentog ac ymroddedig o unrhyw gefndir ddod yn gyfreithiwr yn y DU, rydym o'r farn bod y rhwystrau a amlinellwyd uchod yn ei gwneud yn anoddach i berson o gefndir anhraddodiadol a byddem yn dadlau bod hyn yn gyfystyr a gwahaniaethu sefydliadol. Mae hyn yn niweidio enw da'r proffesiynau cyfreithiol ac yn golygu bod ymgeiswyr teilwng yn cael eu diystyru.

Mae rhai o'r rhwystrau hyn yn dechrau'n gynnar iawn, ond maent yn parhau i uchelfannau'r proffesiynau. Mae'r ateb i'r heriau hyn yn gorwedd gyda rheoliadau a chynlluniau llai strwythurol sy'n ehangu cyfranogaeth a chodi uchelgais y rhai mewn cymunedau llai breintiedig. Mae mentrau megis Big Voice London yn gallu symbylu gogwydd wrth amrywiaethu meddyliu cyfreithiol a bydd, gobeithio, o ganlyniad, yn arwain tuag at ymwybyddiaeth well o gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn diwylliant cyfreithiol.

Diwylliant a'r Gyfraith

Yng nghyd-destun amrywiaeth, rydym hefyd wedi astudio rôl diwylliant yn ein cyfundrefn gyfreithiol, yn arbennig ble mae tystiolaeth ynghylch diwylliant yn rhan o amddiffyniad mewn achos troseddol. Mae tyndra rhwng dadleuon sydd wedi eu seilio ar ddiwylliant a phrawf y 'dyn rhesymol', a all gael effaith anferth posibl ar reolaeth y gyfraith yn gyffredinol.

Fel grŵp, roeddem â diddordeb arbennig yn effaith diwylliant troseddau er anrhydedd ac roeddem yn lwcus iawn cael cyfarfod â Mr Ustus Roderick Evans, barnwr o'r Uchel Lys a'r barnwr llywyddol yn yr achos diweddar yn ymwneud â llofruddiaeth Shafilea Ahmed, merch Brydeinig o dras Bacistanaid oedd yn ei harddegau, a gafodd ei lladd yn 2003.⁴⁰ Cafodd ei rhieni eu dedfrydu i fywyd yn y carchar am ei llofruddiaeth yn Awst 2012, ar dystiolaeth offer gwrando'r heddlu a chwaer Shafilea, a ddywedodd ei bod wedi cael ei lladd i atal dod a chywilydd ar y teulu am wrthod priodas wedi'i drefnu.

Yn y flwyddyn cyn i Shafilea gael ei lladd, rhoddwyd cyffuriau iddi a'i chymryd i Bacistan yn erbyn ei hewyllys mewn ymgais i orfodi priodas. Ers 2008, mae ein llysoedd wedi gallu gosod gorchymyn sifil er mwyn diogelu dioddefwyr priodas dan orfod, o dan Ddeddf Priodas dan Orfod (Diogelwch Sifil) 2007, ble gall torri'r gorchymyn olygu carchar am ddwy flynedd am ddirmyg llys. Er bod y llywodraeth wedi cyhoeddi cynlluniau i greu trosedd priodasau dan orfod, nid yw hyn wedi digwydd eto, tra yn yr Alban cafodd priodasau dan orfod eu gwneud yn drosedd fis Tachwedd diwethaf.⁴¹ Mae beirniaid o'r farn y gall deddfwriaeth droseddol rwystro dioddefwyr rhag dod ymlaen. Fodd bynnag, yn achos Shafilea, pe byddai priodasau dan orfod yn drosedd, efallai byddai'r gyfraith wedi gallu ei diogelu. Yn ein barn ni mae creu priodas dan orfod yn drosedd yn debygol o fod yn fudd i fwy o ddioddefwyr posibl a byddai hawliau dynol yn cael eu cynnal drwy'r gyfraith hwn.

Cyn belled, nid oes cynnig ar gyfer deddfwriaeth benodol wedi'i wneud i fynd i'r afael â thrais sydd â sail anrhydedd, ond mae'r term 'anrhydedd' yn ymddangos yn amhriodol ar gyfer lladd mewn gwaed oer. Rydym yn cytuno â Mr Ustus Roderick Evans, na ddylai diwylliant mewn llofruddiaeth gael ei drin fel nodwedd liniarol. Fel ag yr oedd Mr Ustus Roderick Evans yn barod i'w wneud, dylai'r llysoedd bwysleisio mai llofruddiaeth yw llofruddiaeth, ni waeth beth yw cefndir y diffynnydd ac, ble mae'n briodol, gellir trin diwylliant fel nodwedd waethybol mewn achos, yn arbennig os yw'n dangos diffyg edifeirwch.

40 Gwybodaeth am yr achos ar gael ar-lein ar: <http://www.bbc.co.uk/news/uk-england-19068490>.

41 Trafodaeth ar gael ar-lein ar: <http://www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed90038>.

Er mwyn gwella'r driniaeth o drais yn enw anrhydedd yn y DU, rydym yn argymhell:

- Cadw natur wrthrychol y prawf 'person rhesymol';
- Sicrhau bod yr heddlu yn derbyn hyfforddiant cyson a chyfredol ac yn gweithio ag ysgolion;
- Defnydd o gwricwlwm ethnosen trig mewn ysgolion er mwyn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â thrais yn enw anrhydedd a'r diogelwch cyfreithiol sydd ar gael i'r rhai sy'n teimlo o dan fygythiad. Gellir gwneud hyn fel rhan o gynllun £500,000 yr Ysgrifennydd Cartref i weithio gydag ysgolion er mwyn adnabod dioddefwyr posibl priodasau dan orfod yn gynharach;⁴²
- Hybu a rhoi cyhoeddusrwydd i linell gymorth Karma Nirvana i ddioddefwyr trais yn enw anrhydedd;⁴³
- Diwygiad ar frys i ddiogelwch priodas dan orfod er mwyn diogelu'r oddeutu 8,000 o ferched sy'n ddioddefwyr pob blwyddyn.⁴⁴

42 Gwybodaeth ynglŷn â'r cynlluniau hyn ar gael ar-lein ar: <http://www.guardian.co.uk/world/2012/jun/08/forced-marriage-criminal-offence-david-cameron>.

43 Manylion ar gael ar ei gwefan: <http://www.karmanirvana.org.uk/>.

44 Gwybodaeth ar gael ar-lein ar: <http://www.guardian.co.uk/world/2011/dec/12/forced-marriages-england-number-8000>.